Dewch i siarad RhCT
Let's talk RCT

DEWCH I SIARAD

# EICH SAFBWYNTIAU

## STRATEGAETH CYMRYD RHAN

2025-2030

Cyflawni blaenoriaethau
Cynllun Corfforaethol y Cyngor
GWEITHIO GYDA CHYMUNEDAU

RHONDDA CYNON TAF

# CYNNWYS


TUD.

1 CYFLWYNIAD 3

2 CEFNDIR 4

3 YR HYN BYDDWN NI'N EI WNEUD: EIN GWELEDIGAETH AR GYFER CYFRANOGIAD GWELL 6

4 BETH YW CYMRYD RHAN? 10

5 PWY FYDD YN RHAN O'R GWAITH? 11

6 FFACTORAU GWTHIO CYMRYD RHAN 15

7 MESUR LLWYDDIANT 18

8 CYNLLUN GWEITHREDU 19


Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

You are welcome to communicate with us in Welsh

53320-45• 2025

# RHAGAIR



Dirprwy Arweinydd / Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor ac Eiddo'r Cyngor

Y Cynghorydd
**Maureen Webber BEM**

**Mae'r Cyngor o'r farn y dylai fod modd i bawb sy'n byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r Cyngor. Mae'r Strategaeth Cymryd Rhan newydd hon yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer galluogi pawb, waeth beth fo'u sefyllfa neu eu profiadau, i gymryd rhan yn y sgyrsiau ynghylch ein gwasanaethau, ein gwariant a'n dewisiadau.**

Mae cymryd rhan yn ymwneud â mwy na dim ond ymgynghoriadau. Mae cymryd rhan yn golygu ein bod yn dod o hyd i ffyrdd o gasglu cymaint o safbwyntiau â phosibl mewn gwahanol leoliadau, a thrwy wahanol ddulliau. Mae'n golygu ein bod ni'n adrodd yn gywir ar safbwyntiau'r cyhoedd i Gynghorwyr ac uwch reolwyr yn y Cyngor, fel bod modd iddyn nhw feddwl am yr hyn y mae pobl ledled y Sir yn ei ddweud pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau. Mae'n golygu nad dim ond gwrando ar bobl rydyn ni'n ei wneud, ond ein bod hefyd yn adrodd yn ôl ac yn egluro pa benderfyniadau sy'n cael eu gwneud, pam eu bod yn cael eu gwneud, a sut y cafodd lleisiau trigolion Rhondda Cynon Taf eu hystyried.

Bydd y Strategaeth hon yn llywio gwasanaethau ar draws y Cyngor yn eu gwaith cynllunio ar ymgynghori a chymryd rhan. Mae'n dangos, er ein bod yn croesawu hyblygrwydd ac arloesedd gwasanaethau digidol, ein bod ni'n parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod modd i unrhyw un sydd heb fynediad at weithgareddau ar-lein gymryd rhan o hyd. Mae'n nodi ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag allgáu, gan gynnwys anabledd, oedran neu unrhyw nodwedd arall. Gan weithio ochr yn ochr â Chynllun Corfforaethol y Cyngor, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amrywiaeth o strategaethau a chynlluniau gweithredu o bob rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, rydyn ni'n edrych ymlaen at "Rhondda Cynon Taf lle mae gan bawb yn y gymuned gyfle i ddweud eu barn ar gynllunio a darparu gwasanaethau'r Cyngor."

1 ADRAN

# CYFLWYNIAD

**Mae gan y Cyngor hanes da o ymgysylltu â phreswylwyr o bob cefndir mewn sawl ffordd wahanol ac rydyn ni'n ystyried eu hadborth nhw wrth gynllunio a newid ein gwasanaethau. Rydyn ni hefyd yn gwybod bod lle bob amser i wneud yn well.**

Byddwn ni'n parhau i edrych ar sut rydyn ni'n ymgysylltu â phreswylwyr, cymunedau a rhanddeiliaid ac yr hyn y gallwn ni ei wella fel bod modd i ragor o bobl gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw ac ar eu cymunedau.

**Bydd y Strategaeth Cymryd Rhan yma'n darparu fframwaith i wasanaethau'r Cyngor ei ddilyn er mwyn gwireddi ein gweledigaeth o gyflawni;**

***Rhondda Cynon Taf lle mae modd i bawb yn y gymuned ddweud eu dweud o ran cynllunio gwasanaethau'r Cyngor a'u darparu.***

*Lle mae pobl yn gwybod sut i ddweud eu dweud, yn defnyddio ystod o wahanol ddulliau i ddweud eu dweud ac yn gwybod bod eu barn yn cael ei hystyried pan mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.*



**Mae'r strategaeth yma'n darparu arweiniad i wasanaethau'r Cyngor o ran sut i sicrhau bod rhanddeiliaid yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau a sicrhau bod lleisiau pobl a chymunedau'n cael eu clywed.**

Mae nifer o ddolenni a dogfennau trwy gydol y fframwaith sy'n darparu canllaw manwl a chyngor er mwyn gwireddu ein gweledigaeth.

# 2 ADRAN CEFNDIR

**Mae Strategaeth 2024 yn adeiladu ar Fframwaith Cyfranogiad 2020. Cafodd y ffframwaith hwnnw ei ddisodli gan y pandemig a bu'n rhaid i ni droi at ddull 'cyfrwng digidol' am y tro cyntaf, a hynny wedi'i gefnogi gan opsiynau dros y ffôn a thrwy'r post.**

Gyda phreswylwyr yn addasu i ddulliau ar-lein a'r ystod o ddulliau sydd ar gael, byddwn ni'n parhau i fanteisio ar yr opsiynau hynny gan sicrhau ein bod ni'n parhau i ymgysylltu â'r sawl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol. Rydyn ni bob tro wedi darparu ystod o wasanaethau wyneb yn wyneb i breswylwyr a bydd hyn yn parhau.

Mae'r strategaeth yma hefyd wedi'i diweddaru er mwyn darparu cysylltiad i ofynion newydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru. Mae'r ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i lunio Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd er mwyn annog pobl i gymryd rhan mewn Llywodraeth Leol a bod yn rhan o'r broses ddemocrataidd.



Mae'r Strategaeth Cymryd Rhan newydd yn amserol, gan fod y Cyngor wedi mabwysiadu nifer o strategaethau cyffredinol newydd yn ddiweddar a fydd yn gweithio ochr yn ochr â hi. **Mae'r rhain yn cynnwys;**

## 1

Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:

## Gweithio gyda'n Cymunedau 2024 - 2030

**Mae'n ymrwymo i roi trigolion a chwsmeriaid wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud a'n holl benderfyniadau trwy ymgysylltu mwy ystyrlon a chynhwysfawr.**

Mae pedwar amcan llesiant yn y Cynllun Corfforaethol i helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Rhondda Cynon Taf. Dyma nhw:



### POBL A CHYMUNEDAU

Cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus.



### GWAITH A BUSNES

Helpu i gryfhau a thyfu economi Rhondda Cynon Taf.



### BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD

Rhondda Cynon Taf gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur.



### DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R GYMRAEG

Cydnabod a dathlu ddoe, heddiw ac yfory Rhondda Cynon Taf.

**!**

**Bydd y Strategaeth Cymryd Rhan yn cyd-fynd ag amserlenni'r Cynllun Corfforaethol, tan 2030, ond caiff ei hadolygu'n flynyddol.**

## 2

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Yn ymrwymo i wrando a cheisio deall profiadau pawb.**

NIHR | Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd Rhondda Cynon Taf

**Yn ogystal, dyfarnwyd £5 miliwn i'r Cyngor gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (NIHR) yn 2023 i sefydlu rhaglen Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI RhCT) 5 mlynedd yn Rhondda Cynon Taf.**

Mae hwn yn gydweithrediad ffurfiol rhwng Cyngor Rhondda Cynon Taf, Prifysgol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ac Interlink RCT i newid y diwylliant o fewn y Cyngor i fod yn fwy gweithredol o ran ymchwil ac i ymgorffori proses gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar bob lefel. Mae gwaith CYBI RhCT yn cynnwys cael aelodau'r cyhoedd yn rhan o bethau ac ymgysylltu â nhw fel 'ymchwilwyr dinasyddion', er mwyn gofalu bod profiad bywyd trigolion yn cael ei ddefnyddio fel mater o drefn wrth wneud penderfyniadau yn y Cyngor o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau'n ymwneud ag iechyd a gwella deilliannau ar gyfer unigolion a chymunedau. Byddwn ni'n cydweithio'n agos â'r rhaglen CYBI wrth adolygu a monitro cynllun gweithredu'r Strategaeth hon.

**Dylid nodi...**

**Dim ond un rhan (er ei bod yn rhan bwysig) o'r broses benderfynu yw ymgynghoriad neu ymgysylltiad a dylid ei defnyddio ochr yn ochr â data, tystiolaeth a gwybodaeth arall sy'n bodoli i lywio penderfyniad(au).**

3 ADRAN

# YR HYN BYDDWN NI'N EI WNEUD:
## EIN GWELEDIGAETH AR GYFER CYFRANOGIAD GWELL

**Bydd y Strategaeth Cymryd Rhan hon yn rhedeg o 2025 i 2030 pan fyddwn ni'n adolygu pa mor dda rydyn ni wedi cyflawni ein nodau ac ysgrifennu Strategaeth newydd.**

Yn ystod oes y Strategaeth hon byddwn ni'n adolygu ein cynnydd yn flynyddol fel bod modd i ni weld a gweithredu ar unrhyw welliannau neu newidiadau sydd eu hangen.

**Byddwn ni'n gwirio ein cynnydd yn erbyn y nodau penodol hyn:**

- **Bod yn glir ynghylch pryd a pham mae angen ymgynghori neu fathau eraill o gyfranogiad.**
- **Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'r Cyngor yn darparu gwybodaeth glir a hygyrch ar gyfer pob gweithgaredd ymgysylltu.**
- **Gwneud yn siŵr bod yr holl adborth ar gyfranogiad yn cael ei adrodd, a bod y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn glir ynghylch sut mae adborth wedi cael ei ystyried.**
- **Sicrhau bod pobl sydd wedi ymwneud â gwaith cymryd rhan yn cael adborth ar y penderfyniadau a wnaed.**
- **Gwneud yn siŵr bod pawb sydd eisiau cymryd rhan yn gallu cymryd rhan.**



Rydyn ni'n gwybod bod pob penderfyniad yn bwysig i'r bobl sydd wedi rhoi o'u hamser a'u hymdrech i gymryd rhan. Rydyn ni hefyd yn gwybod y bydd yna bob amser lawer o wahanol farnau ar bob pwnc, ac weithiau bod yn rhaid gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar bethau heblaw adborth y cyhoedd.

Ein hamcanion yn y Strategaeth Cymryd Rhan hon yw sicrhau bod pawb sy'n byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf yn teimlo eu bod yn gallu rhannu eu barn a'u bod yn hyderus y bydd rhywun yn gwrando arnyn nhw, a phan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud, y bydd y rhesymau y tu ôl iddyn nhw'n cael eu rhannu.

## MAE EIN HYMAGWEDD...

ni'n seiliedig ar weledigaeth allweddol a 7 amcan, sydd ill dau'n cysylltu'n agos â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.

## Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru

Mae'r Egwyddorion Cenedlaethol yn darparu cyfres o ganllawiau ar gyfer sefydliadau o fewn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru. Bydd sefydliadau sy'n glynu at yr egwyddorion hynny'n sicrhau bod modd i bobl a chymunedau ymgysylltu â phenderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

1. Cynllunio'ch ymgysylltu i wneud gwahaniaeth.
2. Gwahodd pobl i gymryd rhan, os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny.
3. Cynllunio a chyflawni'ch ymgysylltiad mewn ffordd amserol a phriodol.
4. Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol.
5. Darparu gwybodaeth sy'n rhydd o jargon, sy'n briodol, ac sy'n ddealladwy.
6. Ei gwneud yn hawdd i bobl gymryd rhan.
7. Sicrhau bod pobl yn elwa o'r profiad.
8. Sicrhau bod yr adnoddau a'r amser cywir ar waith er mwyn i'ch ymgysylltiad fod yn effeithiol.
9. Gadael i bobl wybod am effaith eu cyfraniad.
10. Dysgu a rhannu i wella eich ymgysylltiad.

➔ www.wcva.cymru/cy/dylanwadu/ymgysylltu

# EIN GWELEDIGAETH ALLWEDDOL...



***Rhondda Cynon Taf lle mae gan bawb yn y gymuned gyfle i ddweud eu barn ar gynllunio a darparu gwasanaethau'r Cyngor.*** *Lle mae pobl yn gwybod sut i ddweud eu dweud, yn defnyddio ystod o wahanol ddulliau i ddweud eu dweud ac yn gwybod bod eu barn yn cael ei hystyried pan mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.*

# EIN HAMCANION **CYFRANOGIAD**

## 1 Cryfhau a datblygu cyfleoedd clir i drigolion ddweud eu dweud a dylanwadu ar benderfyniadau'r Cyngor.

- Sicrhau bod pobl yn cymryd rhan cyn gynted ag y bo modd, nodi'r bobl a allai fod wedi'u heffeithio gan y mater neu'r newid arfaethedig, a/neu sydd â diddordeb mewn cymryd rhan.
- Cyfathrebu diben ein hymgysylltu'n glir (pam dylai pobl roi o'u hamser a sut gallai eu cymunedau elwa) a'r broses (beth y mae modd i bobl ei ddisgwyl, sut a phryd).
- Defnyddio'r dull(iau) mwyaf addas ar gyfer y rheini sy'n rhan o bethau.
- Ystyried pwysigrwydd cenhedloedd y presennol a'r dyfodol yn ein gweithgaredd ymgysylltu gan ddefnyddio dulliau addas.

## 2 Gwneud yn siŵr ei bod hi'n hawdd cymryd rhan.

- Darparu gwybodaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg syml mewn ffordd sy'n hawdd i'w deall.
- Darparu digon o amser, lle ac adnoddau ar gyfer cyfranogiad ystyrlon a phriodol.
- Siarad â phobl yn eu cymunedau.
- Darparu amrywiaeth o gyfleoedd, trwy amrywiaeth o fformatau hygyrch.

## 3 Annog nifer o bobl a grwpiau i gymryd rhan.

- Monitro amrywiaeth ein hymgysylltu er mwyn sicrhau ein bod ni'n clywed lleisiau pobl â nodweddion gwarchodedig amrywiol.
- Sicrhau bod gan y rheiny sydd wedi'u heithrio'n ddigidol gyfle i ddweud eu dweud. Cynnwys ymgysylltu digidol ynghyd ag ymgysylltu wyneb yn wyneb.
- Ystyried unrhyw brofiadau a sefyllfaoedd penodol, e.e. rhwystrau corfforol a rhwystrau o ran agwedd y gallai pobl ag anableddau eu hwynebu.
- Darparu dulliau a chyfleoedd penodol i gymryd rhan ar gyfer y rheini ag anghenion penodol, e.e. plant a phobl ifainc.

## 4 Gweithio gyda'n gilydd - cydlynu gweithgareddau ymgysylltu yn y gymuned er mwyn sicrhau cysondeb, ansawdd a chyfranogiad partneriaid er mwyn osgoi dyblygu.

- Gweithio ar draws gwasanaethau i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gymryd rhan ac elwa ar adnoddau.
- Defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol drwy wneud defnydd o grwpiau a rhanddeiliaid presennol.
- Gweithio gyda sefydliadau eraill i leihau dyblygu a chreu proses ymgysylltu sy'n fwy effeithiol ac sy'n arwain at lai o flinder ymgynghori.

# EIN HAMCANION CYFRANOGIAD

## 5 Rhoi adborth.

- Rhoi gwybod i bobl beth yw effaith eu cyfraniad gyda dull “Fe ddywedoch chi, fe wnaethon ni”.
- Rhoi adborth amserol ynglŷn â'r penderfyniadau neu gamau gweithredu sydd wedi'u rhoi ar waith o ganlyniad gan ddefnyddio dulliau a mathau o adborth sy'n ystyried dewisiadau cyfranogwyr, hyd yn oed pan nad yw pob cyfraniad wedi arwain at rywbeth pellach.
- Darparu'r newyddion diweddaraf ar ein gwefan ac yn adroddiadau'r Cyngor mewn ffyrdd amrywiol er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaoedd gwahanol.

## 6 Gwneud yn siŵr bod gan aelodau o staff y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw.

- Buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer sgiliau ymgysylltu a chymryd rhan er mwyn sicrhau ymgysylltu effeithiol.
- Darparu'r adnoddau cywir ac amser digonol i staff er mwyn sicrhau bod ymgysylltu'n effeithiol.

## 7 Gwerthuso a gwella.

- Gwirio effeithiolrwydd unrhyw weithgareddau ymgysylltu.
- Defnyddio data demograffeg lleol, gan gynnwys hygyrchedd, amrywiaeth a chydraddoldeb er mwyn nodi bylchau ar gyfer gwella yn y dyfodol.
- Rhannu gwybodaeth sy'n dod i'r fei, prosesau a dysgu ymysg gwasanaethau a phartneriaid.



4 ADRAN

# BETH YW CYMRYD RHAN?






**Gall cymryd rhan olygu pethau gwahanol i bobl wahanol a chwmpasu nifer o ymagweddau.**

Mae'r strategaeth yma'n amlinellu pedair lefel ymgysylltu: Gwybodaeth, Ymgysylltu, Ymgynghori a Chyd-gynhyrchu. Mae modd cyflawni'r lefelau yma trwy nifer o ddulliau darparu gwahanol.

## CYMRYD RHAN

### YMGYSYLLTU

Proses gyfranogol, gyda sgwrs barhaus. Mae'n defnyddio dulliau gwahanol i wrando ar syniadau a fydd yn dylanwadu ac yn llunio datblygiad polisi a newid gwasanaeth.

### CYD-GYNHYRCHU

Gweithio gyda phobl a chymunedau mewn partneriaeth gyfartal er mwyn datblygu a darparu gwasanaethau pwysig ar y cyd, gan gydnabod bod gan bawb gyfraniad i'w wneud.

### DARPARU GWYBODAETH

Yn syml, mae'r dull yma'n cynnwys rhannu gwybodaeth â phobl er mwyn codi ymwybyddiaeth. Dyma'r lefel cymryd rhan fwyaf hawdd a syml.

### YMGYNGHORI

Proses ffurfiol sy'n rhoi cyfle i bobl roi adborth ar eu safbwyntiau a'u barn ar gwestiynau, polisïau neu newidiadau gwasanaeth penodol.

Yn Rhondda Cynon Taf, bydd y lefelau cymryd rhan yn amrywio ym mhob gwasanaeth a bydd y dulliau sy'n cael eu rhoi ar waith yn seiliedig ar y math o benderfyniad, amserlenni ac adnoddau sydd ar gael.  Rhaid i ni ddatblygu ein lefelau ymgysylltu a chyd-gynhyrchu ymhellach a'u gwella gan edrych ar arferion gorau sydd eisoes yn bodoli.

5 ADRAN

# PWY FYDD YN RHAN O'R GWAITH?

**Mae Rhondda Cynon Taf yn gartref i ystod eang o bobl, ac mae'r Cyngor yn defnyddio data o nifer o ffynonellau i ddeall cymaint ag y gallwn am y bobl y mae ein gwasanaethau'n eu cefnogi. Caiff gwybodaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Iechyd a sefydliadau eraill ei hastudio i'n helpu i wneud hyn.**

Byddwn ni'n parhau i ddefnyddio data o ansawdd uchel a dibynadwy cymaint â phosibl i sicrhau ein bod yn glir ynghylch nodweddion, anghenion a ffeithiau bywyd pobl Rhondda Cynon Taf, wedi'i gefnogi lle bynnag y bo modd gan wybodaeth uniongyrchol gan ein gwasanaethau rheng flaen ac adborth trwy ymwneud â chymunedau'r ardal.

Er enghraifft, mae'r data isod a gymerwyd o Gynllun Corfforaethol y Cyngor 'Gweithio Gyda'n Cymunedau 2024-2030' yn dangos rhywfaint o'r wybodaeth allweddol sydd ar gael am bobl Rhondda Cynon Taf.

## MAE EIN DATA YN CYNNWYS...

**239,018**
**CYFANSWM Y BOBLOGAETH:**
65 oed a hŷn: **47,329** (19.8%)
*Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2022 Stats Cymru*

**DISGWYLIAD OES:**

**Gwryw:**
**77.0** mlynedd
Disgwyliad oes Iach:
**57.1 mlynedd**

**Benyw:**
**80.5** mlynedd
Disgwyliad oes iach:
**60.7 mlynedd**

*Disgwyliad oes iach yw'r gyfran o fywyd mewn iechyd da*

Dywedodd
**12%**
o bobl yn RhCT bod gyda nhw anableddau

Mae
**68.5%**
o bobl yn RhCT yn berchen ar eu cartref eu hunain
gyda morgais neu heb forgais

Mae
**13.7%**
yn rhentu tai cymdeithasol

Mae
**17.7%**
yn rhentu tai preifat.

Mae
**8,461** (22.0%)
o ddisgyblion yn RhCT yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim
Yng Nghymru: **20.3%**
*Data o Ganlyniadau Cyfrifiad Ysgolion Ionawr 2023, Llywodraeth Cymru*

*Mae'r holl ddata yn cyfeirio at RhCT ac yn cael eu cymryd o Gyfrifiad 2021 oni nodir yn wahanol*





## MAE TUEDDIADAU'R DYFODOL YN AWGRYMU...

### ERBYN 2030...

**3.4%** o gynnydd
yn y boblogaeth gyda RhCT yn parhau i fod yr Awdurdod Lleol (ALl) mwyaf ond dau yn ôl poblogaeth yng Nghymru.

**11.7%** o gynnydd
yn y boblogaeth 65 oed a hŷn (52,884)

**O'r rhai mae...**

**6,573** yn 85 oed neu'n hŷn
(21.5% o gynnydd)

*Amcanestyniadau poblogaeth fesul Awdurdod Lleol a blwyddyn yn seiliedig ar 2018, StatsCymru*

**33%** o gynnydd
yn nifer yr achosion o strôc erbyn 2035

**70%** o gynnydd
yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia erbyn 2040

*Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth: Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy Archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru. Medi 2023.*

### ERBYN 2043...

**27%** o gynnydd mewn
aelwydydd un person

**25%** o gynnydd mewn
aelwydydd 1 oedolyn â phlant

**16%** o ostyngiad mewn
aelwydydd 2 oedolyn â phlant

*Amcanestyniadau am aelwydydd fesul Awdurdod Lleol, math o aelwyd a blwyddyn yn seiliedig ar StatsCymru 2018.*

# EIN RHANDDEILIAID

Byddwn ni'n cynnwys nifer o randdeiliaid yn ein gweithgareddau ymgysylltu.

RHONDDA CYNON TAF

**Trigolion**

**Rhieni/ Gwarcheidwaid**

**Grwpiau heb eu cynrychioli'n ddigonol**

**Cynhalwyr a Chynhalwyr Ifainc**

**Ymwelwyr**

**Defnyddwyr Hamdden am Oes**

**Busnesau**

**Rhwydweithiau Cymdogaeth**

**Partneriaid yn y Drydedd Sector**

**Rheoleiddwyr**
e.e. Estyn,
Archwilio Cymru

**Cylchoedd Trafod**
- Cylchoedd Trafod Pobl Hŷn
- Cylchoedd Trafod Materion Iechyd

**Cynrychiolwyr Etholedig**
- Cynghorwyr
- Aelodau Seneddol/Aelodau o'r Senedd

**Cynghorau Tref a Chymuned**

**Partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Llais**
Eich Llais mewn Gofal Cymdeithasol

**Comisiynwyr**
e.e. Comisiynydd y Gymraeg, Cenedlaethau'r Dyfodol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Grwpiau Cymraeg**

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus / Cyd-bwyllgor Corfforedig**

**Undebau Llafur**

**Staff**


**Ysgolion**

**Grwpiau Cymunedol**

**Pobl Ifainc**

**Defnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd**

Mae sawl ffordd y mae modd i bobl gymryd rhan;



6 ADRAN

# FFACTORAU GWTHIO CYMRYD RHAN

**Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda'i breswylwyr a chymunedau gan fod y safbwyntiau rydyn ni'n eu clywed yn fuddiol o ran datblygu ein polisïau a newid gwasanaethau.**

Mae nifer o safonau ac egwyddorion perthnasol sy'n llywio ein hymagweddau ar draws y Cyngor, sef;



- **Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru Cyfranogaeth Cymru**
  → **wcva.cymru/cy/dylanwadu/ymgysylltu**

- **Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifainc (2016);**
  → **www.llyw.cymru/safonau-cyfranogiad-cenedlaethol-plant-phobl-ifanc**
  a
  **Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**
  → **www.unicef.org/child-rights-convention**

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
  Mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i Awdurdodau Lleol sicrhau bod trefniadau clir ar waith lle mae pobl yn bartneriaid hafal wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.
  → **www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/welsh**

- **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**
  Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar gynghorau i hyrwyddo ac annog cyfranogiad yn ei broses gwneud penderfyniadau. Gwneir hyn trwy osod gofynion ar brif-gynghorau i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd.
  → **www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/4/contents/welsh**

- **Deddf Cydraddoldeb (2010) a Chyfrifoldeb Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:**
  → **www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance**

- **Safonau'r Gymraeg**
  Yn benodol safonau 44, 91, 92 a 93
  → **www.rctcbc.gov.uk/SafonaurGymraeg**

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Yn gofyn i gyrff cyhoeddus weithio'n well ynghyd â phobl, cymunedau a'i gilydd er mwyn bodloni'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy, hynny yw, y broses o wella lles cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol preswylwyr. Cwblhawyd yr adnodd Gwirio Cynnydd Dull o Weithio, a ddarparwyd gan Gomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol, yn rhan o ddatblygiad y strategaeth hon.

I ddarparu'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy, mae'r ddeddf yn nodi 5 prif ddull o weithio;

1. Cynnwys pobl eraill sydd â buddiant yn ein cynlluniau a cheisio eu barn
2. Cydbwyso anghenion y tymor byr â'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol
3. Cydweithio ag eraill i gyflawni amcanion
4. Ystyried yr effaith ar bob amcan llesiant ynghyd ac ar gyrff eraill trwy integreiddio ein cynlluniau a pholisïau ac ati
5. Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu

Trwy roi'r strategaeth yma ar waith, byddwn ni'n cynorthwyo gwasanaethau i ymwreiddio 'cyfranogiad' yn rhan o'u cynlluniau a threfniadau, a chaniatáu i'r Cyngor gyflawni ei ofynion yn unol â'r ddeddf.

➔ **futuregenerations.wales/cym/darganfod/cenedlaethaur-dyfodol-cymru/deddf-cenedlaethaur-dyfodol-2015/**





**Mae nifer o strategaethau penodol Rhondda Cynon Taf yn cyd-fynd â'n hymagwedd ac mae rhai ohonyn nhw eisoes wedi'u crybwyll.**

### Mae'r rhain yn cynnwys;

Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:

### Gweithio gyda'n Cymunedau 2024 – 2030

Mae'r cynllun yn ymrwymo i roi trigolion a chwsmeriaid wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud a'n holl benderfyniadau trwy ymgysylltu mwy ystyrlon a chynhwysfawr.

➔ www.rctcbc.gov.uk/CynllunCorfforaetholyCyngor

### Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd

Mae'r strategaeth yma'n nodi sut fydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r dyletswyddau newydd sydd wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) er mwyn hyrwyddo ac annog cyfranogiad ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

➔ www.rctcbc.gov.uk/StrategaethCyfranogiadCyhoeddus

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

Mae'r cynllun yma wedi'i lunio fel bod modd i ni nodi sut y byddwn ni'n ceisio bodloni ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a sut y byddwn ni'n bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

→ www.rctcbc.gov.uk/CynllunCydraddoldebStrategol20242028

## Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS)

Mae'r gwasanaeth yma wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant o gyfranogiad pobl ifainc trwy ymgysylltu â phobl ifainc a gwrando arnyn nhw. Y nod yw defnyddio adborth pobl ifainc i lywio gwasanaethau mewnol a datblygiadau partneriaid allanol.

→ www.yeps.wales

## RhCT yn Well Gyda'n Gilydd

Fframwaith cyntaf y Cyngor ar sut y byddwn ni'n cydweithio â'n cymunedau a thrigolion Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r fframwaith wrthi'n cael ei datblygu, a bydd yn disgrifio sut y bydd y Cyngor yn gweithio ochr yn ochr â chymunedau i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun Corfforaethol.

→ www.rctcbc.gov.uk/RhCTGydanGilydd

## Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI)

Gweithio i greu diwylliant ymchwil bywiog yn yr Awdurdod Lleol. Mae'r cydweithrediad yn gyrru penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n torri cylch tlodi, drwy wella cyfleoedd bywyd y rhai mwyaf difreintiedig a mynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd ehangach.

## Gwasanaethau i Blant

Drwy ein Strategaeth Cyfranogiad Plant ac Addewid Rhianta Corfforaethol ar gyfer Rhondda Cynon Taf, rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi hawliau plant, pobl ifainc, rhieni, cynhalwyr a theuluoedd sy'n derbyn gofal a chymorth, i leisio'u barn ac i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu bywydau a helpu i lywio datblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol.

→ www.rctcbc.gov.uk/gwasanaethauiblant

## Gwasanaethau i Oedolion

Mae'r Strategaeth Gwasanaethau i Oedolion yn amlinellu ymrwymiad i gyd-lunio model comisiynu strategol ar gyfer gwasanaethau i oedolion sy'n blaenoriaethu anghenion a dewisiadau'r boblogaeth leol, arferion gorau, ac adnoddau sydd ar gael. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cynnwys unigolion yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau, gan sicrhau bod eu hanghenion yn ganolog i'w gofal, a rhoi llais a rheolaeth iddyn nhw dros y deilliannau sy'n eu helpu i gyflawni eu lles.

→ www.rctcbc.gov.uk/OedolionaPhoblHyn

## Partneriaeth Gymdeithasol

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei staff a'i weithwyr fel un o'i asedau a'i gryfderau pwysicaf. Am y rheswm hwn, mae'r Cyngor yn cefnogi egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yn rhagweithiol, ac yn bwysicach oll yn meithrin perthnasoedd gwaith da a deialog gyda'n Partneriaid Undebau Llafur. Lle bo'n briodol, bydd y Cyngor yn gweithio gydag undebau llafur i fynd i'r afael â heriau a gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau. Drwy Bwyllgor Ymgynghorol ar y Cyd y Cyngor, byddwn ni'n ymgynghori ac yn cynnwys cynrychiolwyr undebau llafur yn rhagweithiol mewn materion sy'n cael effaith ar ein gweithwyr.

# 7 ADRAN MESUR LLWYDDIANT



**Mae'r Strategaeth Cymryd Rhan yn amlinellu'r weledigaeth gyffredinol a'r 7 amcan mae'n rhaid i'r Cyngor weithio tuag atyn nhw.**

Cafodd yr ymgynghoriad a'r adborth a dderbyniwyd wedi hynny ei ddefnyddio i lywio cynllun gweithredu cyffredinol sydd i'w gael fel Atodiad i'r Strategaeth hon. Bydd cynllun gweithredu manwl yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio arbenigedd y prosiect CYBI newydd.

Byddwn ni hefyd yn cysylltu â strategaethau cyfredol y Cyngor sydd eisoes â chamau gweithredu ymgysylltu ynghlwm, er enghraifft mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ceisio monitro ymgysylltedd a gweithgaredd ymgynghori, ac adolygu a gwella dulliau cyfathrebu i breswylwyr gan sicrhau bod fersiynau hygyrch, megis fersiynau Iaith Arwyddion Prydain, fersiynau haws i'w darllen a fersiynau sydd ddim yn ddigidol ar gael.

Bydd ein cynnydd wrth ddarparu'r amcanion yma'n destun adolygiad mewnol blynyddol er mwyn sefydlu'r cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at gamau gweithredu tymor byr perthnasol. Bydd proses darparu'r amcanion yma'n cael ei harwain gan Uwch Swyddog, ond bydd hynny'n dibynnu ar ein gwasanaethau ni'n cydweithio i wella cyfranogiad cyffredinol.

Bydd hefyd modd ystyried cynnydd yn rhan o drefniadau cyflawniad y Cyngor. Rhaid i wasanaethau gyflwyno cynlluniau cyflawni sy'n llywio polisi a strategaeth y Cyngor. Mae'r cynlluniau yma'n holi gwasanaethau sut fyddan nhw'n rhoi'r egwyddorion datblygu cynaliadwy ar waith ar gyfer eu blaenoriaethau, gan gynnwys cyfranogiad. Mae pob Cynllun Darparu Gwasanaeth yn cael ei fonitro gan Gyfarwyddwr y Grŵp a'r Aelod o'r Cabinet perthnasol yn rhan o drefniadau rheoli cyflawniad y Cyngor.

Yn ogystal â Chynlluniau Darparu Gwasanaeth, mae gyda ni broses hunan-werthuso gadarn sy'n canolbwyntio ar effaith a deilliannau darparu gwasanaethau. Mae'r broses yn arwain at welliannau o ran profiadau a deilliannau ein cwsmeriaid.

**Gofynnir 3 chwestiwn;**

- **? Ydyn ni'n gwneud yn dda?**
- **? Sut rydyn ni'n gwybod?**
- **? Sut y mae modd i ni wella pethau ymhellach?**

Caiff y cwestiynau yma'u llywio gan brosesau ymgynghori ac ymgysylltu cyhoeddus ac mae modd i ni fonitro'r cynlluniau yma pan fydd pobl yn cymryd rhan.

# 8 ADRAN CYNLLUN GWEITHREDU

**Mae'r cynllun gweithredu lefel uchel hwn wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio adborth o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth. Bydd camau gweithredu mwy penodol yn cael eu datblygu gyda grwpiau perthnasol o fewn a thu allan i'r Cyngor a'u hadolygu i sicrhau bod yr Amcanion yn cael eu cyflawni ac i gyflawni nodau penodol.**

## 1 AMCAN 1:

**Cryfhau a datblygu cyfleoedd clir i drigolion ddweud eu dweud a dylanwadu ar benderfyniadau'r Cyngor.**

| CAMAU GWEITHREDU | SUT Y BYDDWN NI'N GWNEUD HYN? |
|---|---|
| **Cyfleoedd i gymryd rhan** | • Defnyddio dulliau ymgysylltu priodol ar gyfer grwpiau ac unigolion penodol.<br>• Cynyddu ymgysylltiad wyneb yn wyneb.<br>• Deunyddiau priodol ar gyfer y gynulleidfa E.e. Haws i'w darllen, fersiynau Iaith Arwyddion. |
| **Cysylltu â grwpiau presennol** | • Sefydlu cyfeiriadur o grwpiau cymunedol lleol.<br>• Mynychu rhagor o grwpiau yn rheolaidd. E.e. Rhwydweithiau Cymdogaeth. |
| **Gwrando ar bobl** | • Datblygu dull 'Fe ddywedoch chi, fe wnaethon ni'.<br>• Bod yn dryloyw ac yn onest ynglŷn â'r hyn sydd wedi digwydd / neu'r hyn a benderfynwyd a dweud wrth bobl pam. |

## 2 AMCAN 2:

**Gwneud yn siŵr ei bod hi'n hawdd cymryd rhan.**

| CAMAU GWEITHREDU | SUT Y BYDDWN NI'N GWNEUD HYN? |
|---|---|
| **Hyrwyddo** | • Defnyddio amrywiaeth o ddulliau i hysbysebu ymgynghoriadau. E.e. arwyddion ScreenCloud mewn canolfannau hamdden.<br>• Ymgynghoriad amserol - rhoi gwybod i bobl am ymgynghoriadau mewn digon o amser fel bod modd iddyn nhw ymateb.<br>• Cynghorwyr i hyrwyddo a hysbysebu cyfleoedd i gymryd rhan yn y gymuned leol. |
| **Hygyrchedd** | • Cynyddu cyfranogiad yn y gymuned.<br>• Gwneud ymgynghoriadau'n fwy hygyrch i ragor o bobl.<br>• Darparu trafnidiaeth i achlysuron ymgynghori os oes angen.<br>• Ymgysylltu ar benwythnosau neu gyda'r nos â phobl sy'n gweithio. |

## 3 AMCAN 3:
**Annog nifer o bobl a grwpiau i gymryd rhan.**

| CAMAU GWEITHREDU | SUT Y BYDDWN NI'N GWNEUD HYN? |
|---|---|
| **Ymgysylltu â phobl ifainc** | • Ymgysylltu â phlant o oedran ifanc (ysgol gynradd).<br>• Defnyddio gwybodaeth syml, uniongyrchol, defnyddio iaith gyfarwydd sy'n hawdd ei deall.<br>• Defnyddio technoleg yr ysgol.<br>E.e. Ap Rhieni i gysylltu â rhieni ynglŷn â materion sy'n effeithio arnyn nhw a phobl ifainc.<br>• Gweithio gyda YEPS i gynnal sesiynau ieuenctid ar bynciau cyfredol ac ymgynghoriadau. |
| **Defnyddio cysylltiadau presennol i gyrraedd rhanddeiliaid eraill** | • Grwpiau presennol i helpu i rannu ymgynghoriadau.<br>E.e. Rhwydweithiau Cymdogaeth, Grŵp Cynghori Pobl Hŷn. |
| **Ystyried cymhellion** | • Cymhellion grŵp i gymunedau.<br>E.e. talebau ar gyfer y Lido / campfa / theatr. |

## 4 AMCAN 4:
**Gweithio gyda'n gilydd - Cydlynu gweithgareddau ymgysylltu yn y gymuned er mwyn sicrhau cysondeb, ansawdd a chyfranogiad partneriaid er mwyn osgoi dyblygu.**

| CAMAU GWEITHREDU | SUT Y BYDDWN NI'N GWNEUD HYN? |
|---|---|
| **Gweithio'n rhan o bartneriaeth** | • Cysylltu ag Achlysuron a chyfarfodydd Cymunedol.<br>E.e. diwrnodau hwyl i'r teulu.<br>• Cysylltu â sefydliadau gwirfoddol sydd â chynulleidfaoedd wedi'u sefydlu.<br>• Gweithio gyda phartneriaid,<br>e.e. heddlu De Cymru, i rannu ac osgoi dyblygu gweithgarwch. |

## 5 AMCAN 5:
**Rhoi adborth.**

| CAMAU GWEITHREDU | SUT Y BYDDWN NI'N GWNEUD HYN? |
|---|---|
| **Nodi ffynonellau ymgysylltu, er mwyn darparu adborth priodol.** | • Gwelliannau i'r wefan.<br>E.e. Datblygu olrhain URL a chodau QR. |
| **Adborth - Hanfodol ein bod ni'n cau'r cylch.** | • Gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a'u helpu i weld y gwerth mewn cymryd rhan.<br>• Mynd i gyfarfodydd dilynol yn bersonol lle bo modd.<br>• Datblygu dull 'Fe ddywedoch chi, fe wnaethon ni'.<br>• Dylai adborth fod yn amserol ac yn haws i'w ddarllen. |

## 6 AMCAN 6:

### Gwneud yn siŵr bod gan aelodau o staff y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw.

| CAMAU GWEITHREDU | SUT Y BYDDWN NI'N GWNEUD HYN? |
|---|---|
| **Rhoi gwybodaeth berthnasol i staff** | • Datblygu canllawiau a rhestr wirio ymhellach i wasanaethau eu hystyried cyn ymgynghori. E.e. amserlen o 6 wythnos ar y lleiaf ar gyfer newidiadau i wasanaethau.<br>• Staff i gael gwybod am wybodaeth allweddol, fel bod modd iddyn nhw helpu gydag unrhyw ymholiadau gan y cyhoedd. E.e. canolfan gyswllt. |
| **Hyfforddi staff** | • Darparu hyfforddiant i gysylltiadau allweddol ymgynghoriad, partneriaid, gwirfoddolwyr cyn ymgynghoriadau neu'r rhai sy'n rhannu ymgynghoriadau.<br>• Hyfforddi staff ar ymgysylltu â phobl â Nodweddion Gwarchodedig.<br>• Hyfforddiant ar lunio dogfennau haws i'w darllen. |

## 7 AMCAN 7:

### Gwerthuso a gwella.

| CAMAU GWEITHREDU | SUT Y BYDDWN NI'N GWNEUD HYN? |
|---|---|
| **Gwerthuso Gweithgareddau Ymgysylltu** | • Datblygu canllawiau i gynorthwyo gwasanaethau i werthuso gweithgareddau.<br>• Ystyried beth sy'n gweithio'n dda a beth nad oedd wedi gweithio'n dda, a beth y byddai modd ei wella. |